

Mentrau

laith

Cymru

Yr ydym ni fel Mentrau laith o'r farn dylai cynnwys y Gymraeg ar wyneb y bil cynllunio newydd. Credwn fod y sefyllfa bresennol â pheryglon a goblygiadau difrifol fydd yn tanseilio'r Gymraeg fel iaith Gymunedol. Rydym hefyd yn pryderu bod y sefyllfa â'r potensial i ddadwneud a thanseilio gwaith mae'r Mentrau laith a llawer o bartneriaid y Llywodraeth yn ei wneud ar lawr gwlad, o ran gwarchod a datblygu'r Gymraeg.

Mae angen datganiad statudol diamwys ei bod hi'n gyfreithlon i gymryd ystyriaeth o faterion yn ymwneud â hyfywedd y Gymraeg fel iaith gymunedol wrth ystried ceisiadau cynllunio. Heb sylfaen o'r fath mae polisïau megis TAN 20 yn ddi-werth.

Nid ydym yn trafod gwrthod ceisiadau cynllunio ar sail iaith unigolyn ond ystyriaeth i ddatblygiadau sylweddol fydd yn gallu newid natur ieithyddol ardal dros nos - fel rydym eisoes wedi gweld mewn sawl ardal â chanrannau uchel o siaradwyr Cymraeg - oherwydd nad yw'r natur yna wedi cael ei hystyried yn llawn. Nid yw hyn yn dderbyniol mewn meysydd eraill sydd yn effeithio'r amgylchedd. Yn syml rydym yn gofyn fod amgylchedd ieithyddol ardaloedd yn cael ystyriaeth yn llawn o fewn y drefn cynllunio. Credwn ei bod yn amserol ac yn angenrheidiol i Llywodraeth Cymru ymgymryd â dull holistaidd o hyrwyddo a gwarchod yr iaith Gymraeg fel iaith gymunedol, ac mae cydnabod arwyddocâd a photensial y maes cynllunio i weithredu er budd cymunedau cynaliadwy o ran eu hiaith - ynghyd â gweithredu ar y pwyntiau ymarferol a godwn yn y llythyr hwn - yn gamau holl bwysig y dylai'r Llywodraeth eu cymryd.

Credwn fod y drefn bresennol o asesiadau iaith yn hollol annigonol a gwallus.

Credwn fod angen i'r Gymraeg fod yn ystyriaeth parhaol ym maes cynllunio, a byddai cyfundrefn statudol yn galluogi i hyn ddigwydd. Byddai'n creu gwarchodaeth i'r iaith yn yr un ffordd ag mae yr amgylchedd a safleoedd treftadaeth yn cael eu gwarchod gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw.

Dylid gofyn i gorff statudol annibynnol fod yn gyfrifol dros hyn yn yr un ffordd mae Cyfoeth Naturiol yn gyfrifol am asesiadau amgylcheddol.

I grynhoi felly gofynnwn fel Mentrau laith i chi ystyried y pwyntiau canlynol ar gyfer y bil newydd:

- Rhoi'r Gymraeg ar wyneb y bil fydd yn cynnwys datganiad statudol diamwys bod ystyriaeth i'r Gymraeg wrth benderfynu cymeradwyo neu wrthod ceisiadau cynllunio yn gyfreithlon.
- Bod amgylchedd ieithyddol ardaloedd yn cael eu hystyried mewn modd tebyg i ystyriaethau amgylcheddol a treftadaeth

Yn gywir,